Economi a Thrafnidiaeth – cynrychiolwyr y trydydd sector yn cwrdd â'r Gweinidog

Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd oedd y mater mawr a drafodwyd yng nghyfarfod yr hydref rhwng y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones, a chynrychiolwyr o sefydliadau'r amgylchedd, trafnidiaeth gymunedol, anabledd, datblygu a sefydliadau menywod yng Nghymru.

Yn y cyfarfod hefyd, a gynhaliwyd fel rhan o Gynllun y Trydydd Sector, trafodwyd cynllun gweithredu adrannol yr Economi a Thrafnidiaeth; mae'r cynllun hwn yn datgan yr ymrwymiadau gan yr adran i hybu a chefnogi gweithgareddau'r trydydd sector.

Cyflwynodd Cyswllt Amgylchedd Cymru bapur ar ran y trydydd sector gan wneud sylw am y diffyg pwyslais ar y newid yn yr hinsawdd yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mewn trafodaeth amrywiol iawn gyda'r Gweinidog, trafodwyd y newid sy'n angenrheidiol mewn ymddygiad i annog rhagor o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus neu gymunedol, yn hytrach na siwrneiau mewn ceir ond hefyd yr anawsterau a wynebir i wneud y dewisiadau amgen hyn yn fwy atyniadol, a hygyrch i bobl anabl, pobl hŷn a'r rheini sydd gan blant.

Trafododd y cyfarfod hefyd ffyrdd y gallai sefydliadau'r trydydd sector weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn enwedig yng ngoleuni'r dirwasgiad. Dywedodd y Gweinidog fod ei adran ef yn adolygu'i holl raglenni ac awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau'r trydydd sector fod yn rhan o'r broses hon. Un awgrym, o safbwynt dull y gallai'r adran fod â diddordeb ynddo, oedd cyllidebu ar sail rhyw.

Mae copïau o'r holl bapurau a chofnodion y cyfarfodydd gweinidogol i'w gweld yn

http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_paper_ministerial.cfm?0=0&display_sitetextid=174&sub=3 neu
http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_paper_ministerial.cfm?0=0&display_sitetextid=174&sub=3&lang=cy